Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Cylchlythyr Gwaith Taith Bywyd

Gorffennaf 2022

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Cyflwyniad

Croeso i ail rifyn cylchlythyr Gwaith Taith Bywyd NAS. Rydym yn gobeithio y bydd at eich dant. Yn y rhifyn hwn rydym yn cyflwyno'r cydlynwyr Gwaith Taith Bywyd o bob un o'r pum rhanbarth yn ogystal â gwybodaeth ac adnoddau am agweddau penodol ar Waith Taith Bywyd. Mae'r rhain yn cynnwys cysylltu Gwaith Taith Bywyd â chamau datblygu, Llinell Amser Anogaeth Trawma a Diwrnodau Deall y Plentyn, negeseuon allweddol o rai o weithdai Katie Wrench a chrynodeb o ganllaw arfer da Coram BAAF ar Llythyrau Bywyd Diweddarach. Mae yna hefyd ddolenni i ystod eang o adnoddau defnyddiol i'w defnyddio gan weithwyr proffesiynol ac eraill.

Chris Holmquist
Rheolwr/Golygydd Datblygu Cymorth Mabwysiadu

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Parhau â gwaith Fframwaith Gwaith Taith Bywyd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol

Roedd y rhifyn cyntaf o gylchlythyr Gwaith Taith Bywyd yn rhoi trosolwg o'r maes gwaith hwn, Fframwaith Gwaith Taith Bywyd NAS ac yn canolbwyntio ar ddarparu Gwaith Taith Bywyd mewn modd amserol. Adlewyrchwyd y cynnydd a wnaed wrth gyflawni hyn ym Maromedr Mabwysiadu Cymru 2021, a adroddodd bod:

'Mabwysiadwyr Cymreig gryn dipyn yn fwy tebygol o dderbyn deunyddiau taith bywyd mewn modd amserol'.

Yn ogystal â darparu deunyddiau Taith Bywyd mewn modd amserol, mae angen i ni sicrhau eu bod o ansawdd da a bod gwaith uniongyrchol yn cael ei wneud i helpu plant i ddeall a phrosesu eu profiadau. Mae'r cydlynwyr Gwaith Taith Bywyd yno i gefnogi a chynghori gweithwyr proffesiynol, rhieni mabwysiadol ac eraill. Mae Pecyn Cymorth Gwaith Taith Bywyd, a gafodd sylw yn y cylchlythyr cyntaf, yn parhau i fod yn adnodd allweddol ac mae'r rhifyn hwn yn adeiladu arno.

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Cwrdd â'r Cydlynwyr Taith Bywyd Rhanbarthol

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Canolbarth a Gorllewin Cymru

Sian Gibbon

Helo, Sian (Hi) ydw i, rwy'n gweithio'n rhan amser fel Cydlynydd Gwaith Taith Bywyd y gwasanaeth, yn darparu cefnogaeth a hyfforddiant cyn lleoli i fabwysiadwyr, gofalwyr maeth ac rwyf hefyd yn darparu cymorth ôl-fabwysiadu i deuluoedd mabwysiadol ynghylch Gwaith Taith Bywyd, gan gynnwys Gwaith Stori Bywyd Therapiwtig. Rwyf hefyd yn gyfrifol am drefnu a rheoli digwyddiadau hyfforddi ar gyfer mabwysiadwyr a gweithwyr proffesiynol yn y rhanbarth. Rwy'n mwynhau gweithio gyda theuluoedd a helpu plant mabwysiedig i archwilio a deall hanes eu bywyd.

Pan nad ydw i'n gweithio, gwraig fferm ydw i ac mae'n debyg y byddwch chi'n dod o hyd i mi a'n bachgen bach allan ar y fferm gyda'r holl anifeiliaid. Rwy'n berson creadigol sy'n mwynhau celf a chrefft yn ogystal â phobi cacennau. Fy arbenigedd yw fy nghacen siocled doddi. Rwyf hefyd wrth fy modd yn heicio ac archwilio llefydd gwahanol gyda fy nheulu a ffrindiau yn ogystal â fy nghŵn. Rwy'n dwlu ar gerddoriaeth a ffilmiau a fy hoff genre yw'r 80au. Rydw i yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl.

Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru
Adoption Mid & West Wales

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Gogledd Cymru

Sarah Ryan



Fy enw i yw Sarah, rwy'n byw yng Ngogledd Orllewin Cymru ym mynyddoedd prydferth Eryri. Pan nad ydw i'n crwydro mynyddoedd y Carneddau nac yn beicio i fyny Pen y pass rydw i'n gweithio i'r gwasanaeth rhanbarthol fel gweithiwr cymdeithasol Taith Bywyd.

Fy mhrif nod yw cefnogi gweithwyr cymdeithasol i gynhyrchu deunyddiau taith bywyd o ansawdd da. Rwyf hefyd yn gweithio gyda mabwysiadwyr i'w cefnogi gyda Gwaith Taith Bywyd a darparu gwaith stori bywyd therapiwtig i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Gwyddoniaeth yw fy nghefndir gwreiddiol, ond fe wnes i ailhyfforddi a chymhwyso fel gweithiwr cymdeithasol yn 2004 ac mae gen i brofiad helaeth o weithio mewn nifer o leoliadau. Rwy'n mwynhau gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd ac wedi datblygu angerdd am waith adfer trawma. Yn fwyaf diweddar, rwyf wedi cael hyfforddiant gyda'r awdur gwaith Stori Bywyd, Katie Wrench ac rwyf ar fin cwblhau'r diploma mewn Gwaith Taith Bywyd Therapiwtig gyda Richard Rose.

Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru | North Wales Adoption Service

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

De-ddwyrain Cymru

Raluca Miklovits

Helo, fy enw i yw Raluca (Hi), dechreuais fy ngyrfa gwaith cymdeithasol yn Rwmania ond wedi byw yn y DU am yr 16 mlynedd diwethaf. Mae gen i gefndir mewn gwaith cymdeithasol maethu a gofal plant ac rydw i hefyd yn athrawes ysgol gynradd gymwysedig. Rwyf wrth fy modd yn rhedeg, cerdded a sgïo!

Creais declyn o'r enw Fy Stori Hyd Yma…sy'n gasgliad o gwestiynau wedi'u cyfeirio at aelodau'r teulu a gweithwyr proffesiynol, i gasglu gwybodaeth werthfawr ar gyfer Gwaith Taith Bywyd. Rwyf wedi gweithio ar ei roi ar waith ar draws y pum Awdurdod Lleol a darparu hyfforddiant i ystod eang o weithwyr proffesiynol gwaith cymdeithasol yn ogystal â staff addysg ac iechyd. Mae wedi bod yn her wirioneddol gwneud hyn, ond yn un sydd wedi dysgu gwersi gwerthfawr i mi am gyfathrebu a chydweithio. Rwyf hefyd wedi bod yn gweithio gyda darpar fabwysiadwyr a mabwysiadwyr cymeradwy, gan eu cefnogi i ddeall pwrpas Gwaith Taith Bywyd a gwneud y defnydd gorau o ddeunyddiau Taith Bywyd.

Rwy'n angerddol am Waith Taith Bywyd ac yn ei weld fel "busnes i bawb". Rwy'n annog gweithwyr proffesiynol a theuluoedd yn ddyddiol i'w gadw mewn cof wrth ryngweithio â phlant a phobl ifanc.

South East Wales Adoption Service
Achieving More Together
Gwasanaeth Mabwysiadu Dedd'wyrain Cymru
Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd (VVC)

Tina James and Sara Jones

Tina James

Sara Jones

Ni yw Sara (Hi) a Tina (Hi) ac ry'n ni'n gweithio'n rhan amser fel Cydlynwyr Taith Bywyd VVC. Rydym wedi bod yn y swydd ers Ionawr 2022. Mae Tina hefyd yn gweithio'n rhan amser fel Canfyddwr Teulu. Bu'n gweithio ym maes diogelu am nifer o flynyddoedd ac mae wedi gweithio yn Mabwysiadu am y deng mlynedd diwethaf. Mae Tina hefyd yn rhiant mabwysiadol. Mae Sara wedi gweithio'n helaeth gyda phlant sy'n byw y tu allan i'w teuluoedd biolegol ac mae'n angerddol am weithio'n greadigol gyda phlant, eu teuluoedd a'u gofalwyr i gefnogi Gwaith Taith Bywyd.

Rhyngom mae gennym dros ddeng mlynedd ar hugain o brofiad gwaith cymdeithasol gydag arbenigedd mewn mabwysiadu, plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Mae gennym gynlluniau arloesol ar gyfer hyrwyddo Gwaith Taith Bywyd ar draws VVC a'r Awdurdodau Lleol, darparu hyfforddiant, datblygu adnoddau hygyrch, a darparu cymorth i fabwysiadwyr a rhwydweithiau proffesiynol. Mae gennym dîm gwych o Weithwyr Taith Bywyd yn VVC yr ydym yn cyfarfod â nhw yn rheolaidd i drafod ymarfer a rhannu syniadau.

Mae Sara yn caru cerddoriaeth a chelf ac yn mynd i gigs ac orielau mor aml ag y gall hi. Mae hi'n hoff o anifeiliaid (sy'n esbonio'r dylluan!) ac yn cynllunio taith i'r Ariannin i weld y bywyd gwyllt. Symudodd Sara yn ôl i Dde Cymru yn ddiweddar ar ôl treulio ugain mlynedd yn Llundain, ac mae hi'n gloywi ei Chymraeg rhydlyd iawn.

Mae Tina wrth ei bodd yn amser teulu, yn teithio, yn cymdeithasu, yn mynd â'i chi am dro ac yn 'ceisio' cadw'n heini! Mae'n mwynhau coginio a phan fydd amser yn caniatáu, mae'n rhoi cynnig ar ryseitiau newydd nad yw'r teulu byth mor frwd yn eu cylch ag y mae hi!

Vale, Valleys and Cardiff Adoption | Mabwysiadu yn y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Bae'r Gorllewin

Sarah Vaughan

Helo, fy enw i yw Sarah (Hi). Fi yw Cydgysylltydd Taith Bywyd Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin. Mae fy rôl yn cynnwys cefnogi Gweithwyr Cymdeithasol a Gweithwyr Cymorth Ymarfer i goladu deunyddiau taith bywyd ac i wneud Gwaith Taith Bywyd gyda phlant a'u teuluoedd. Yna, byddaf yn cefnogi rhieni sy'n mabwysiadu sut i ddefnyddio'r deunyddiau hyn ac yn rhoi arweiniad ar sut i rannu taith eu plentyn i fabwysiadu gyda nhw. Er mwyn gwneud hyn, rwy'n ymwneud â darparu gweithdai, hyfforddiant a sesiynau un-i-un ar gyfer gweithwyr proffesiynol a mabwysiadwyr. O'm profiad o weithio gyda theuluoedd mabwysiadol ac oedolion mabwysiedig ers dros 12 mlynedd, rwy'n ymwybodol o ba mor bwysig yw hi i berson mabwysiedig ddeall o ble y mae wedi dod a pham eu bod wedi cael eu mabwysiadu ac felly mae gweithio yn y maes hwn wedi dod yn angerdd i mi.

Y tu allan i'r gwaith, fy nileit eraill yw fy nau o blant, treulio amser gyda fy nheulu a ffrindiau, yn cerdded ar y traeth ac yn ymweld â lleoedd newydd.

Western Bay Adoption Service
Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Pwysigrwydd Gwaith Taith Bywyd dros amser

Mae Fframwaith ac Ymarfer Taith Bywyd NAS yn amlinellu 5 cam yn ystod taith plentyn o ddod i mewn i'r system ofal, pan fydd angen i ni ganolbwyntio'n benodol ar Waith Taith Bywyd. Mae'n pwysleisio bod angen i'r gwaith hwn ddechrau cyn gynted â phosibl a'i fod yn broses barhaus, y mae angen iddi barhau ar ôl i blentyn gael ei fabwysiadu, drwy gydol ei blentyndod i fod yn oedolyn.

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Fframwaith Gwaith Taith Bywyd

Cam 1: Plentyn yn Derbyn Gofal

Mae angen i Waith Taith Bywyd fod ar yr agenda cyn gynted ag y caiff plentyn lety ac yn rhan o'r cynllun ar gyfer sefydlogrwydd, pa bynnag ffurf a ddaw.

Cam 2: Gorchymyn Lleoli wedi'i ganiatáu

Ar y pwynt pan fo'r llys yn gwneud Gorchymyn Lleoli mae'n gwbl hanfodol bod hanes y plentyn yn cael ei gofnodi cystal â phosibl a bod ei rieni mabwysiadol yn cael yr offer i helpu'r plentyn i wneud synnwyr o'i hunaniaeth ddeuol.

Cam 3: Cysylltu a pharu

Gyda'r paru mae hanes bywyd y plentyn yn rhan annatod o'r hyn rydym yn gofyn i'r rhieni mabwysiadol ei wneud a gweithio gydag ef.

Cam 4: Pontio

Mae'r cyflwyniadau yn gyfle i fabwysiadwyr ddysgu am y plentyn fel ag y maent ar hyn o bryd, ac yn hollbwysig, i ddysgu sut y maent yn ymdopi gyda throsglwyddiadau gofal, gan gofio nad dyma'r tro cyntaf i'r plentyn brofi cyfnod pontio o'r fath.

Cam 5 – Lleoliad a pharhaus (Gorchymyn Ôl-fabwysiadu)

Mewn rhai ffyrdd, mae'r lleoliad yn ddechrau gwaith pellach y mae angen parhau i fod yn oedolyn er mwyn i'r plentyn feithrin ymdeimlad cydlynol o bwy ydyn nhw, o ble maen nhw wedi dod a beth mae hynny'n ei olygu iddyn nhw.

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Nodyn i'ch atgoffa o'n hymrwymiad i ddarparu Gwaith Taith Bywyd o ansawdd da mewn modd amserol

Mesurau perfformiad 20a a 20, sy'n cyfrif nifer y plant y darparwyd deunydd Taith Bywyd ar eu cyfer gan y panel paru a'r 2il adolygiad mabwysiadu. Ceir amrywiaeth sylweddol o hyd, ac eithrio ychydig o ostyngiad y llynedd, rydym wedi gweld gwelliant cyson yn y gyfran sy'n cael deunyddiau drafft Taith Bywyd gan y panel paru a'r 2il adolygiad. Wrth baru, mae wedi cynyddu o 39% yn 2018/2019 i 76% yn 2021/2022 ac ar yr ail adolygiad o 56% i 70%.

Plant a gafodd eu deunyddiau taith bywyd trwy banel paru



2018/19 – 2021/22

Plant sydd wedi derbyn eu deunyddiau taith bywyd erbyn 2il adolygiad mabwysiadu



2018/19 – 2021/22

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Cysylltu gwaith Taith Bywyd â Datblygiad Plant

Ochr yn ochr â chamau'r Fframwaith Gwaith Taith Bywyd mae plant yn newid ac yn datblygu ac mae angen i'r gwaith addasu i ddiwallu eu hanghenion a'u galluoedd newidiol. Mae Sarah Ryan wedi darparu llinell amser ar ffurf ysgol, gan roi trosolwg o 3 cham eang o ddatblygiad a'r Gwaith Taith Bywyd sydd angen digwydd, ynghyd ag enghreifftiau o ddulliau ac adnoddau priodol. Nid yw datblygiad plentyn sy'n derbyn gofal yn mynd rhagddo'n esmwyth ac nid yw grisiau'r ysgol wedi'u gwasgaru'n gyfartal i adlewyrchu hyn. Efallai na fydd plentyn unigol yn cyfateb yn union i'r camau hyn. Mae'n ganllaw eang, sy'n rhoi syniad o'r hyn sy'n nodweddiadol i lawer o blant.

Ysgol Taith Bywyd Gwaith

Sut i ddefnyddio deunyddiau Taith Bywyd i siarad â'ch plentyn (Brodzinsky, 2011).

Mae oedran a datblygiad pob plentyn yn wahanol. Mae hwn yn ganllaw eang.

Sarah Ryan
Gweithiwr Cymdeithasol
Taith Bywyd
Mawrth 2022



Mae Sarah hefyd wedi cynhyrchu canllaw manwl sy'n rhoi enghreifftiau o lyfrau a deunyddiau eraill a all gefnogi Gwaith Taith Bywyd ar wahanol oedrannau a chyfnodau datblygu.

Llythyr Bywyd Diweddarach: 11 – 18+

Ar yr adeg hon, dylai plentyn fod yn ymwybodol o'i stori trwy sgyrsiau gartref, ei lyfr Stori Bywyd, blwch cof, albwm lluniau, gwasanaeth blwch llythyrau neu gyswllt uniongyrchol. Ni ddylai unrhyw beth beri syndod i'r plentyn. Mae gwaith Taith Bywyd yn broses dros nifer o flynyddoedd ac nid yn ddigwyddiad. Yn ystod llencyndod mae chwiliad naturiol i'r hunan a rhaid i berson ifanc ddod o hyd i ffordd i integreiddio agweddau ar y ddau deulu i'w hunaniaethau newydd. Felly, mae'n bwysig nad yw teulu biolegol y person ifanc yn cael ei drafod mewn ffordd ddifrïol. Nid yw hyn yn golygu y dylech osgoi'r agweddau anodd, ond cadwch y wybodaeth yn niwtral, yn gytbwys ac yn ffeithiol. A chofiwch fod yn amyneddgar. Dilyswch a chefnogwch eich person ifanc drwy'r amser. Mae dealltwriaeth dda o rianta therapiwtig sy'n briodol i'w hoedran yn bwysig ar hyn o bryd i gadw'r cyfathrebu i lifo. Yn 18 oed gall plentyn weld ei gofnodion er y bydd gan y mabwysiadwr gopi o'r Adroddiad Mabwysiadu Plentyn, y dystysgrif Geni wreiddiol a gwybodaeth arall a roddir iddo ar adeg y mabwysiadu.

Llyfr Stori Bywyd a Llythyr Bywyd Diweddarach: Age 9 – 11

Ar yr adeg hon, dylai rhiant mabwysiadol ymgyfarwyddo â bywyd hwyrach y plentyn yn ddiweddarach. Felly, os bydd plentyn yn gofyn unrhyw gwestiynau gall y rhiant ateb hyn mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran. Felly, erbyn i'r plentyn ddarllen ei lythyr bywyd diweddarach, ni ddylai DIM fod yn syndod iddo gan fod y rhieni mabwysiadol wedi ateb cwestiynau ac wedi siarad am rai o'r themâu anodd o fewn y llyfr a'r llythyr. Y peth pwysicaf yw bod y sgyrsiau hyn yn digwydd, a bod y plentyn yn cael ei ddilysu. Mae angen siarad am deulu biolegol y plentyn mewn ffordd niwtral, fel nad yw plentyn yn teimlo bai na chywilydd am y pethau sydd wedi digwydd iddo. Mae dealltwriaeth dda o rianta therapiwtig sy'n briodol i'w hoedran yn bwysig ar hyn o bryd i gadw'r cyfathrebu i lifo.

Llyfr Stori Bywyd a Straeon Paralel: Age 0 – 11

Gall plentyn iau na 5 oed edrych ar y ffotograffau a gall rhieni sy'n mabwysiadu ddechrau cyflwyno trwy sgyrsiau bob dydd iaith mabwysiadu fel beth yw mabwysiadu a rhieni biolegol. Mae dealltwriaeth o addysg rhyw sy'n briodol i'w hoedran yn bwysig ar yr adeg hon er mwyn deall hyn. Er enghraifft, 'mae mam enedigol a thad genedigol yn gwneud babi. Mae'r babi'n cael ei gludo yng nghroth neu fol y fam enedigol.' Mae straeon cyfochrog/trosiadol sy'n straeon symlach o fywyd eich plentyn hefyd yn ddefnyddiol ar yr adeg hon. Dylai llyfr stori bywyd sydd wedi'i ysgrifennu'n dda gynnwys y gwahanol safbwyntiau ac esboniadau, fel bod y llyfr yn heneiddio gyda'r plentyn. Bydd plentyn tua 5 - 8 oed yn y cyfnod egocentrig o ddatblygiad ac yn edrych ar y llyfr yn nhermau 'Ble ydw i?' Felly, mae lluniau a ffotograffau yn bwysig. Maent hefyd yn dechrau deall eu bod, trwy ennill un teulu, wedi colli teulu arall. Yn 6 – 8 oed mae dealltwriaeth o gysylltedd biolegol yn dechrau felly sut maen nhw'n perthyn i'r bobl o'u cwmpas. Os bydd angen gall gwaith taith bywyd therapiwtig ddechrau o tua 7 oed ymlaen. Cyn yr oedran hwn, gofalwyr y plentyn sy'n allweddol i'r plentyn ddeall ei stori mabwysiadu. Tua 9 oed mae plentyn yn dechrau deall gwahanol safbwyntiau ac mae rhesymeg yn datblygu felly bydd yn gallu dechrau deall y problemau a gafodd eu rhieni biolegol.

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Llythyrau Bywyd Diweddarach

Rhoddir llawer iawn o sylw, yn gywir ddigon, i Lyfrau Taith Bywyd, ond mae angen yr un peth ar gyfer Llythyrau Bywyd Diweddarach hefyd. Yn ddiweddar, diweddarodd Coram BAAF Ganllaw Arfer Da cynhwysfawr ar Lythyrau Bywyd Diweddarach, felly byddwn yn tynnu sylw'n fyr at rai o'r negeseuon allweddol ac yn cyfeirio ymarferwyr at y cyhoeddiad hwnnw i gael gwybodaeth fanylach.

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Swyddogaeth a diben llythyrau Bywyd Diweddarach

Mae'r llythyr bywyd diweddarach yn cael ei ysgrifennu gan weithiwr cymdeithasol plentyn ar adeg benodol, gan roi gwybodaeth i'r plentyn hwnnw a fydd yn ei helpu i ddeall a gwneud synnwyr o'i fywyd hyd at y pwynt hwnnw. Y bwriad yw y bydd y rhiant(rhieni) yn rhoi'r llythyr i'r plentyn ar adeg pan fydd yn gallu ei ddarllen drostynt eu hunain, gyda chymorth priodol. Dylai adeiladu ar y cyfrif yn eu Llyfr Taith Bywyd, unrhyw waith uniongyrchol a wneir gyda nhw cyn mabwysiadu, a chymorth parhaus gan rieni i ddysgu am a deall eu stori eu hunain. Dylai roi esboniadau o'r penderfyniadau a wnaed gan eraill a helpu'r plentyn i ddeall nad oedd yn gyfrifol am y pethau drwg a ddigwyddodd iddo.

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Y Sail Gyfreithiol

Cymharol ychydig o ddeddfwriaeth benodol neu ganllawiau statudol sy'n ymwneud â Llythyrau Bywyd Diweddarach yng Nghymru.

'Rhaid i'r Asiantaeth Fabwysiadu ddarparu cynllun lleoliad o leiaf 7 diwrnod cyn lleoli, sy'n ymdrin â materion yn Atodlen 6, gan gynnwys: Y dyddiad y mae'r llyfr stori bywyd a'r llythyr bywyd diweddarach i'w trosglwyddo i ddarpar fabwysiadydd y plentyn.' *Y Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 (AAR) A36(2) Atodlen 6(8)*

Darperir canllawiau manylach yn Lloegr.

Dylai gweithiwr cymdeithasol sy'n adnabod y plentyn, gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn ddelfrydol, baratoi llythyr bywyd diweddarach ar gyfer y plentyn. Dylai'r llythyr esbonio hanes y plentyn o enedigaeth a dylai fod yn ddigon manwl fel y bydd gan y plentyn yn ei arddegau, neu'r oedolyn ifanc, fanylion ffeithiol am ei deulu biolegol a'i fywyd cyn mabwysiadu, ac felly gallu deall pam na allent fyw gyda'u teulu biolegol, a pham y cawsant eu mabwysiadu. Dylid rhoi'r llythyr i'r darpar fabwysiadydd o fewn deg diwrnod gwaith i'r seremoni fabwysiadu, h.y., y seremoni i ddathlu gwneud y gorchymyn mabwysiadu. *Canllawiau Statudol Lloegr ar Fabwysiadu (2013) S5.51*

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Rhannu gwybodaeth bersonol am rieni biolegol, aelodau o'r teulu a gofalwyr maeth

Mae hwn yn faes sy'n peri pryder i lawer o ymarferwyr ac mae llawer iawn o ddryswch ynghylch yr hyn y gellir ac na ellir ei rannu, yn enwedig mewn perthynas â'r cytundebau caniatâd ymlaen llaw. Er bod y cytundebau hyn yn gysylltiedig â'r CAR/B ar hyn o bryd nid ydynt mewn gwirionedd yn ymwneud â'r wybodaeth a gynhwysir yn y CAR/B ei hun. NID oes angen caniatâd y rhieni biolegol i rannu gwybodaeth gan y CAR/B gyda'r rhieni mabwysiadol a'r plentyn neu unrhyw wybodaeth a dderbyniwyd hyd at 18fed pen-blwydd y plentyn hwnnw. Maent ond yn berthnasol i wybodaeth a dderbynnir ar ôl i'r person mabwysiedig gyrraedd 18 oed.

- Yn yr un modd â'r Llyfr Taith Bywyd, rhaid mai'r egwyddor sylfaenol yw bod gan bobl fabwysiedig yr hawl i gael mynediad at eu holl wybodaeth fel oedolion ac erbyn iddynt gyrraedd y pwynt hwnnw, ni ddylai fod unrhyw syndod yn eu disgwyl. Dylai gwybodaeth yn y Llythyr Bywyd Diweddarach a'r llyfr Taith Bywyd fod yn gyson â'i gilydd.

- 'Ni fwriedir i gytundeb o'r fath ddiystyru neu gyfyngu ar rannu gwybodaeth fel rhan o waith stori bywyd y plentyn mabwysiedig. Mae gan bob plentyn hawl i wybodaeth lawn yn ei lyfr stori bywyd, a bydd hyn yn cynnwys adnabod gwybodaeth am ystod o bobl yn eu bywyd cyn eu mabwysiadu'.

- Mae canllawiau statudol Lloegr ar fabwysiadu 2013, lle nad oes fersiwn Cymraeg uniongyrchol cyfatebol ar gael, yn cysylltu cytundebau ymlaen llaw ar gyfer datgelu gwybodaeth fabwysiadu o dan reoliadau ôl-gychwyn â Gwaith Taith Bywyd:

- Mae gan Asiantaethau Mabwysiadu ddisgresiwn eang iawn o dan Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005, a43(2), sy'n datgan y 'gall yr asiantaeth fabwysiadu ddarparu mynediad o'r fath i'w chofnodion achos a datgelu pa bynnag wybodaeth sydd yn ei meddiant ag y gwêl yn dda ar gyfer y dibenion cyflawni ei swyddogaethau fel asiantaeth fabwysiadu.'

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Cynnwys Llythyr Bywyd Diweddarach

Ysgrifennir Llythyr Bywyd Diweddarach gan y gweithiwr cymdeithasol yn uniongyrchol at berson ifanc mabwysiedig. Dylai pob llythyr fod yn bersonol ac yn unigol i'r plentyn hwnnw. Bydd ganddo fwy o fanylion na'r Llyfr Taith Bywyd ac mae'n rhagdybio lefel uwch o aeddfedrwydd emosiynol, profiad bywyd a dealltwriaeth. Bydd angen cefnogaeth gan rieni ac eraill o hyd i brosesu'r wybodaeth a'r effaith emosiynol.

Mae'r rhestr wirio yng nghylchlythyr y llynedd yn darparu strwythur defnyddiol iawn a rhai awgrymiadau i'w hystyried wrth baratoi Llythyr Bywyd Diweddarach. Mae canllaw Arfer Da Coram BAAF yn rhoi arweiniad manwl, gydag enghreifftiau, ar sut i fynd i'r afael â phynciau anodd megis cam-drin corfforol a rhywiol, cenhedlu o ganlyniad i dreisio, plentyn a aned o berthynas losgachol, babanod wedi eu gadael, plentyn wedi'i adael fel babi, maethu ar gyfer mabwysiadu (Sefydlogrwydd Cynnar), tarfu ar leoliad maeth ac amharu ar leoliad mabwysiadol.

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Pwyntiau cyffredinol i'w hystyried wrth ysgrifennu llythyr bywyd diweddarach

Pwy fydd yn ysgrifennu'r llythyr?

Bron bob amser gweithiwr cymdeithasol y plentyn neu'r gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu a ddaeth yn rhan o'r broses unwaith y daeth mabwysiadu fel cynllun i'r plentyn. Os bydd gweithiwr yn cymryd drosodd yn ddiweddarach, dylai wahodd cyfraniadau gan eraill sydd wedi adnabod y plentyn am gyfnod hwy. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i gael cyfraniadau gan deulu biolegol, gofalwyr maeth, rhieni mabwysiadol ac eraill.

Ei wneud yn unigol

Mae bob amser yn demtasiwn defnyddio enghraifft sy'n bodoli eisoes fel templed, ond mae hyn yn debygol o arwain at bob un yn debyg i eraill ac felly'n amhersonol. Gall yr awgrymiadau yn y rhestr wirio sicrhau bod yr holl elfennau pwysig yn cael eu cynnwys ac yn helpu eglurder ond ni ddylid eu dilyn yn slafaidd gan y gall hyn olygu bod y llythyr yn rhy ffurfiol ac amhersonol.

Iaith

Ceisiwch osgoi jargon a therminoleg gyfreithiol, ond ni ddylai'r iaith fod yn fabanaidd nac yn nawddoglyd. Yn yr un modd â'r Llyfr Taith Bywyd, ystyriwch y math o iaith, sy'n debygol o gael ei defnyddio gan y rhieni mabwysiadol ac sydd felly'n fwyaf cyfarwydd i'r plentyn. Ceir canllawiau manylach ar faterion megis arddull ysgrifennu a hyd, yn ogystal â diwallu anghenion penodol, yng nghanllaw Arfer Da Coram BAAF.

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Cefnogi mabwysiadwyr i ddefnyddio'r llythyrau bywyd diweddarach gyda'u plant

Mae Llythyr Bywyd Diweddarach sydd wedi'i ysgrifennu'n dda yn chwarae rhan mewn helpu plentyn mabwysiedig i ddeall, prosesu ac integreiddio ei hanes i synnwyr cadarnhaol o'u hunaniaeth bersonol. Dylai'r rhieni sy'n mabwysiadu ymgyfarwyddo â'r llythyr hwn fel y gallant ateb unrhyw gwestiynau sydd gan y plentyn. Mae angen eu cefnogi i ddeall pwysigrwydd y llythyr, paratoi'r plentyn ar gyfer yr hyn sydd ynddo a dewis yr amser mwyaf priodol i'w rannu gyda nhw. Bydd angen i asiantaethau gynnig hyfforddiant a chefnogaeth ar wahanol adegau. Nid yw'n ddigon dibynnu ar hyfforddiant paratoi ar gyfer mabwysiadu, 10 mlynedd neu fwy yn ddiweddarach. Yn yr un modd â'r Llyfr Taith Bywyd, cynhwyswch rieni mabwysiadol wrth baratoi'r Llythyr Bywyd Diweddarach, fel bod ganddynt ymdeimlad o berchnogaeth o'r cychwyn cyntaf. Bydd caniatáu i rieni archwilio eu gobeithion, eu hofnau a'u disgwyliadau yn eu helpu i fod yn fwy hyderus wrth gefnogi eu plentyn i gael mynediad at y Llythyr Bywyd Diweddarach ar yr adeg briodol.

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Safleoedd Rhwydweithio Cymdeithasol, cyswllt a diogelwch

Gall gweithwyr proffesiynol a rhieni mabwysiadol fod yn bryderus ynghylch galluogi cyswllt heb ei gynllunio a heb gefnogaeth rhwng pobl ifanc sydd wedi'u mabwysiadu a'u teulu biolegol drwy gyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, gallai dal gwybodaeth yn ôl a allai gynorthwyo'r person ifanc i chwilio arwain at awydd i lenwi bylchau yn ei wybodaeth. Mae'n bwysig nad yw ofn cyswllt yn annog rhieni i beidio â rhannu'r llythyr yn gynharach. Un ateb yw paratoi mwy nag un fersiwn o'r llythyr i'w rannu ar gamau gwahanol. Gall goramddiffyn fod yn wrthgynhyrchiol os yw'n creu diffyg ymddiriedaeth rhwng y person ifanc mabwysiedig a'i rieni. Mae angen i ni helpu pobl ifanc i ddysgu sut i asesu a rheoli risg, yn hytrach na cheisio eu hamddiffyn yn gyfan gwbl rhag hynny. Gall Llythyr Bywyd Diweddarach nad yw'n cilio oddi wrth yr agweddau anodd a thrallodus ar hanes plentyn, ond sydd hefyd yn ymgorffori tosturi ac empathi, annog y person ifanc i siarad â'i rieni neu oedolion dibynadwy eraill am eu teimladau a'u pryderon.

Llinell Amser Anogaeth Trawma a Diwrnod Deall y Plentyn

Bydd pob plentyn sy'n dechrau derbyn gofal a'r rhai sy'n cael eu mabwysiadu wedi profi trawma ac aflonyddwch yn y gofal y maent yn ei dderbyn. Po fwyaf y byddwn yn ei ddeall am yr hyn a ddigwyddodd, pryd y digwyddodd a sut ymatebodd y plentyn, y gorau y gallwn ragweld beth allai ei anghenion gofal fod nawr ac yn y dyfodol. Yn 2021, comisiynodd NAS AFA Cymru i gynhyrchu Canllaw Arfer Da ar y Llinell Amser Anogaeth Trawma a Diwrnod Deall y Plentyn ac i ddarparu hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r offer hyn.

Diwrnod Deall y Plentyn

Mae'r model Deall y Plentyn wedi'i wreiddio mewn ymarfer sy'n seiliedig ar ymchwil o drawma datblygiadol, datblygiad plentyn ac ymlyniad. Cynsail y model yw, os gallwn ddeall beth allai fod wedi bod yn digwydd i'r plentyn yn ystod ei fywyd cynnar, gallwn ddechrau ystyried a cheisio deall yr effaith y gallai hyn fod wedi'i chael ar eu dealltwriaeth o'r byd a'u hymatebion ffisiolegol a seicolegol.

Mae model gweithio mewnol y plentyn yn dylanwadu ar ei ddatblygiad emosiynol ac ymddygiadol a'i botensial ar gyfer y dyfodol.

Trwy geisio deall profiadau ac ymddygiadau cynnar plentyn, gall ymarferwyr, gofalwyr maeth a darpar fabwysiadwyr ddechrau "rhyfeddu" beth allai fod yn digwydd i'r plentyn yn ei fyd mewnol. Y broses hon o "rhyfeddu" yw un o'r camau cyntaf tuag at rianta'n therapiwtig a dyma nod Diwrnod Deall y Plentyn.

Llinell Amser Anogaeth Trawma

Mae'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r plentyn yn cyfarfod â'r darpar fabwysiadwyr i roi ymdeimlad iddynt o bwy yw'r plentyn a beth fu profiad bywyd y plentyn.

Mae Llinell Amser Anogaeth Trawma yn darparu cronoleg a dadansoddiad manwl o hanes plentyn o'r cyfnod cyn ei eni hyd at yr amser presennol. Cyflwynir gwybodaeth am brofiadau plentyn a all gynnwys profiadau trawmatig ac anogol yn ogystal â ffactorau genetig. Rhoddir ystyriaeth wedyn i sut y bydd y rhain wedi effeithio ar ddatblygiad corfforol, niwrolegol, ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol y plentyn, yn ogystal â sut mae'r profiadau hyn wedi effeithio ar farn y plentyn amdano'i hun, pobl eraill a'r byd o'i gwmpas. Yna rhoddir ystyriaeth bellach i anghenion y plentyn ac y bydd yn debygol o'u cael yn y dyfodol a sut olwg fydd ar rianta'r plentyn hwn.

Rhoddir canllawiau i'r darpar fabwysiadwyr ar ddulliau rhianta i gefnogi anghenion y plentyn. Bydd y darpar fabwysiadwyr yn derbyn adroddiad ysgrifenedig o'r Llinell Amser Anogaeth Trawma ar ôl y cyfarfod.

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Sut mae hyn yn cyd-fynd â Gwaith Taith Bywyd?

Mae'r egwyddorion a'r canlyniadau ar gyfer llinell amser Deall Diwrnod y Plentyn a'r Anogaeth Trawma yn debyg iawn i'r un ar gyfer Gwaith Taith Bywyd.

Dylai'r broses o gynllunio tuag at Ddiwrnod Deall y Plentyn, Llinell Amser Anogaeth Trawma a Gwaith Taith Bywyd ddigwydd tua'r un amser. Dylai'r wybodaeth a gesglir ar gyfer y tri chyfuno â'i gilydd i roi naratif clir i fabwysiadwyr o fywyd cynnar y plentyn fel y gallant ddeall nid yn unig sut oedd bywyd i'r plentyn ond yr effaith y gallai hyn fod wedi'i chael ar eu dealltwriaeth o'r byd.

Mae paratoi a chynllunio cynnar yn hanfodol a dylent gynnwys cydweithio â phobl sy'n adnabod y plentyn yn dda. Mae'r Canllaw Arfer Da Gwaith Taith Bywyd yn cynghori y dylid dechrau casglu gwybodaeth unwaith y bydd y plentyn yn un sy'n Derbyn Gofal. Drwy wneud hyn bydd y wybodaeth a gesglir yn cyfrannu'n fawr at y Diwrnod Deall y Plentyn a'r Llinell Amser Anogaeth Trawma.

Ymddygiad plentyn yw ei ymateb i amgylchiadau y mae'n canfod eu hunain ynddynt a dyma iaith cyfathrebu'r plentyn â'r oedolion o'u cwmpas; geiriadur yr iaith honno yw eu hanes. (AFA Cymru, 2019, Canllaw Arfer Da NAS ar Bontio a Chymorth Cynnar t3)

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Crynodeb o weithdy Katie Wrench

Comisiynwyd Katie Wrench, gweithiwr cymdeithasol/seicotherapydd celf, awdur a hyfforddwraig uchel ei pharch y llynedd i gyflwyno cyfres o weithdai hanner diwrnod ar Arfer Gorau mewn GWAITH TAITH BYWYD a Fframwaith Gwaith Taith Bywyd NAS. Anelwyd y rhain at ystod eang o bobl sydd â rhan mewn Gwaith Taith Bywyd, megis Penaethiaid Gwasanaeth, Rheolwyr Tîm, IROs, gweithwyr cymdeithasol, gofalwyr maeth a rhieni mabwysiadol. Y nod oedd codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd Gwaith Taith Bywyd ar bob lefel ledled Cymru.

Roedd y gweithdai, a fynychwyd gan lawer, ac a oedd yn ysbrydoledig ac yn procio'r meddwl, yn darparu nifer o negeseuon allweddol i bawb sy'n gweithio gyda phlant:

- Nid yn unig y mae'n rhaid i Waith Taith Bywyd gael ei wneud o fewn terfynau amser, ond rhaid iddo hefyd fod o ansawdd uchel.
- Mae Gwaith Taith Bywyd yn fusnes i bawb – nid dim ond y rhai nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'i gyflawni. Mae gan bob un ohonom rôl i gefnogi'r gwaith a chael gwared ar rwystrau.
- Mae angen i ni helpu'r plentyn i adeiladu ymdeimlad o ddiogelwch cyn rhannu gwybodaeth anodd,
- Mae helpu plant i ddatblygu llythrennedd emosiynol a'u gallu i reoli emosiynau yn agwedd hanfodol ar Waith Taith Bywyd.
- Gall Gwaith Taith Bywyd Da feithrin gwytnwch, hunan-barch, ac ymdeimlad cadarnhaol o hunaniaeth bersonol
- Dim ond ar ôl i'r sgaffaldiau seicolegol hwn gael ei ddarparu, y bydd y plentyn yn barod i dderbyn gwybodaeth anodd a'i hintegreiddio â'i synnwyr o bwy ydyn nhw nawr.
- Mae Gwaith Taith Bywyd yn broses barhaus, nid yn ddigwyddiad, ac mae angen i ni gefnogi a pharatoi rhieni i barhau â'r gwaith trwy gydol eu plentyndod hyd at oedolaeth.

Roedd y gweithdy'n cysylltu rhai egwyddorion craidd o arfer gorau mewn Gwaith Taith Bywyd â Fframwaith Taith Bywyd yr NAS a Chanllaw Arfer Da a hefyd yn tynnu ar y negeseuon o Faromedr Mabwysiadu Adoption UK 2020/2021.

Gellir dod o hyd i grynodeb o'r meysydd a drafodwyd yn y gweithdy trwy'r ddolen **hon**.

Diolch i Katie a'r holl staff a fynychodd a gwneud y sesiynau hyn yn llwyddiant ysgubol.

Adnoddau dilynol o weithdai Katie Wrench

PowerPoint Cyflwyniad, Prif Sesiwn a Rhestr Ddarllen

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Detholiad o adnoddau ar gyfer Gwaith Taith Bywyd ar gyfer gweithwyr proffesiynol, gofalwyr maeth a rhieni mabwysiadol

Erthyglau

Life story work for children and young people with care experience – Adolygiad cwmpasu (Simon P. Hammond, Julie Young, a Claire Duddy, 2021, Developmental Child Welfare2)

Telling a child's story: creating a words and pictures story book to tell children why they are in care gan Jill Devlin

Life story work: Reflections on the experience by looked after young people – Rachel Willis a Sally Holland, Adoption and Fostering 2009

Children's Understanding of Adoption:Developmental and Clinical Implications – David Brodzinsky, 2011 – archwilio sut mae gallu plant i ddeall beth mae mabwysiadu yn ei olygu yn newid wrth iddynt ddatblygu.

Arweiniad

Canllawiau Gorllewin Berkshire ar Lythyrau Bywyd Diweddarach a Llyfrau Storïau Bywyd.

Gwaith Stori Bywyd: camau cyntaf o first4adoption.org.uk

Siarad am darddiad eich plentyn mabwysiedig – nodyn cyngor (diwygiedig 2015) ar gael gan CoramBAAF

Gwefannau defnyddiol

Adopt Cymru – gwefan Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru gydag adran Gwaith Taith Bywyd, pecyn cymorth GTB a modiwl hyfforddi mabwysiadwyr

Adoption UK Wales – igwybodaeth am wasanaethau i fabwysiadwyr, pobl fabwysiedig a gweithwyr proffesiynol. Mae gan yr adran hyfforddiant ystod eang o gyrsiau ar gyfer rhieni sy'n mabwysiadu, gofalwyr sy'n berthnasau a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes mabwysiadu yng Nghymru, gan gynnwys Gwaith Taith Bywyd.

AFA Cymru – Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu: adnoddau ar gyfer dysgu a datblygu, hyfforddiant ac ymgynghoriaeth i weithwyr proffesiynol ac aelodau'r cyhoedd.

Connect Cymru – gwefan a grëwyd gan ac ar gyfer pobl ifanc mabwysiedig – 'Dod o hyd i wybodaeth, clywed ein straeon, cymryd rhan.'

CoramBAAF – cymorth i asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ym maes mabwysiadu a maethu.

Fideos

Does a lack of truth telling destabilise a child's life journey? – Mae Helen Oakwater, rhiant a hyfforddwr mabwysiadol, yn peintio darlun byw o effaith barhaus esgeulustod a chamdriniaeth mewn babandod, trwy atgofion synhwyraidd anymwybodol. (13m 26s). ***Rhybudd triger:*** *Yn y fideo hwn mae Helen yn dychmygu ac yn disgrifio'n fanwl brofiad goddrychol baban sy'n destun esgeulustod eithafol, cam-drin emosiynol a cham-drin domestig.*

Peace to Shark music – dangos pa mor wahanol y gall y byd gael ei brofi gan blant sydd wedi profi trawma cynnar a'r rhai nad ydynt wedi profi trawma cynnar. (1m 17s)

The Still Face Experiment – dangos sut mae babi yn ymateb i riant sydd ag wyneb gwag, anymatebol ac yn mynd yn drallodus iawn yn gyflym.

Empathy vs Sympathy – Mae Brené Brown yn archwilio sut i helpu a sut i beidio â helpu rhywun sy'n profi trallod.

The Window of Tolerance — animeiddiad Beacon House, sy'n disgrifio ymateb ymladd, hedfan, rhewi plentyn sydd wedi'i drawmateiddio.

Inside Out: Sadness comforts Bing Bong – clip o'r ffilm Pixar Inside Out, sy'n dangos yn hytrach na cheisio ar unwaith i dynnu sylw neu ddatrys problemau plentyn sy'n ofidus, gall cydnabod ac 'eistedd' gyda'r trallod eu helpu i ail-reoleiddio.

ReMoved – ffilm fer bwerus wobrwyog yn dangos effaith hirhoedlog cam-drin domestig ar blentyn (12m 47s). ***Rhybudd triger:*** *Yn y fideo hwn, mae actorion yn darlunio golygfeydd o gam-drin domestig, cam-drin emosiynol a cham-drin corfforol plant ifanc. Gall mynediad gael ei gyfyngu gan rai systemau TGCh awdurdodau lleol.*

Supporting Life Story Work: the role of managers, IROs and strategic leads — gweminar gan Polly Baines ar wefan Research in Practice. I weld hwn, bydd angen i chi gofrestru gyda RiP.

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Cysylltiadau Defnyddiol

Isod mae rhestr o'r cydlynwyr Gwaith Taith Bywyd sydd yn eu swyddi ledled Cymru ar hyn o bryd. Byddai'n ddefnyddiol gwybod â phwy i gysylltu yn eich ardal os oes angen arweiniad, cyngor arnoch neu os oes gennych fynediad i unrhyw gyfleoedd hyfforddi.

Gwasanaeth Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru
Sian E Gibbon | SEGibbon@carmarthenshire.gov.uk

Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru
Sarah Ryan | Sarah.Ryan@wrexham.gov.uk

Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru
Raluca Miklovits | Raluca.Miklovits@blaenau-gwent.gov.uk

Gwasanaeth Mabwysiadu y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd
Tina James | tjames@valeofglamorgan.gov.uk
Sara Jones | sarajones@valeofglamorgan.gov.uk

Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin
Sarah Vaughan | s.vaughan1@westernbayadoption.org

Os ydych wedi datblygu unrhyw beth newydd i helpu gydag arfer da neu'n gwybod am unrhyw wybodaeth am gyflawni gwaith taith bywyd, cysylltwch â'ch cynrychiolydd gwasanaeth mabwysiadu uchod neu Dîm Canolog y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar **contact@adoptcymru.com**